| Enw'r Ymgeisydd | Rhif y Ganolfan | Rhif yr Ymgeisydd |
|---|---|---|
| | | |

CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU

Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE

General Certificate of Secondary Education

140/52

**DYLUNIO A THECHNOLEG**

**PAPUR 2**

**MAES PENODOL: CYNHYRCHION GRAFFIG**

(Haen Sylfaenol – Graddau G i C)

P.M. DYDD MAWRTH, 6 Mehefin 2006

(1½ awr)

| | Gadewch yn wag |
|---|---|
| **Cwestiwn 1** | |
| **Cwestiwn 2** | |
| **Cwestiwn 3** | |
| **Cwestiwn 4** | |
| **Cwestiwn 5** | |
| **CYFANSWM Y MARCIAU** | |

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Bydd angen offer lluniadu sylfaenol a phensiliau lliw arnoch ar gyfer yr arholiad hwn.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Atebwch **bob** cwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion yn y lleoedd gwag priodol yn y llyfryn hwn. Os nad oes gennych ddigon o le, cewch barhau â'ch ateb yng nghefn y llyfryn, gan ofalu nodi rhif y cwestiwn yn gywir.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Rhoddir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*Atebwch* **bob** *cwestiwn yn y lleoedd gwag priodol.*

**1.** Mae'r ffotograff yn dangos pos jigso i blant sy'n cynnwys elfen o *"HUD" (magic)*.

- Mae'r jigso wedi'i wneud o **gardbord llwyd** 2000 micron. Mae'r llun lliw-llawn printiedig wedi'i fondio ar un ochr i'r bwrdd ac mae dalen gydag enw'r gwneuthurwr arni wedi'i gludio ar y cefn.
- Mae inc **thermocromig** du wedi'i brintio ar y llun i roi elfen "HUD" y pos jigso.
- Mae arwyneb y pos jigso, lle mae'r llun, wedi'i **laminiadu** â ffilm sglein.
- Mae'r darnau wedi cael eu **torri â dei**.
- Mae'r blwch wedi'i wneud o **gardbord llwyd** 700 micron wedi'i orchuddio â delwedd sgleiniog o'r pos jigso a gwybodaeth am y cynnyrch.

**Astudiwch** y ffotograffau ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.



Examiner only *Arholwr yn unig*

*(a)* (i) **Rhestrwch** y **pedwar** inc lliw a ddefnyddir wrth brintio mewn lliw llawn. [4]

..............................................................................

..............................................................................

..............................................................................

..............................................................................

(ii) Defnyddir inc thermocromig i greu elfen 'hud' y pos jigso.
Mae'n newid lliw pan gaiff ei gynhesu trwy ei rwbio.

Mae inc thermocromig yn cael ei alw'n ddefnydd ........................................................ . [1]

(iii) Mae'r pos jigso wedi'i laminiadu â ffilm sglein er mwyn ..................................................................

.................................................................................................................................................... [2]

(iv) Defnyddir *torri â dei* i stampio darnau'r jigso allan. **Esboniwch** pam mae'r dull hwn yn addas. [2]

..............................................................................................................................................................

..............................................................................................................................................................

*(b)* **Rhowch un** rheswm pam mae cardbord llwyd yn addas ar gyfer gwneud y pos jigso. [2]

..............................................................................................................................................................

..............................................................................................................................................................

..............................................................................................................................................................

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(c)* Dangosir isod ddwy o'r delweddau sydd wedi'u printio ar flwch y jigso. **Rhowch gylch** am y gair cywir a **chwblhewch** y frawddeg sy'n dilyn.

(i)

Mae'r symbol hwn yn dangos y gall y cynnyrch gael ei **Ailgylchu / Leihau**.

Mae'n golygu ..............................................................................................................

.............................................................................................................................. [2]


(ii)


Mae'r symbol hwn yn dangos **Graff Bar / Siart Bar / Cod-Bar**.

Mae'n cael ei ddefnyddio gan siopau ar gyfer ..........................................................

.............................................................................................................................. [2]

**2.** Mae blychau melysion yn cael eu gwneud mewn sawl siâp a maint. Dangosir dau isod. Mae un ar siâp prism trionglog a'r llall ar siâp prism hecsagonol.






*(a)* **Trwy ddulliau geometregol, lluniwch** siâp pennau'r prismau ar y gridiau isod.
***Dangoswch eich HOLL waith llunio'r siapiau.***

(i) Trwy ddulliau geometregol, lluniwch siâp pen trionglog y prism.

Mae'n driongl gyda **phob un** o'i ochrau'n 40mm o hyd.


*Mae'r lluniad wedi cael ei ddechrau i chi.*



[4]

(ii) Trwy ddulliau geometregol, lluniwch siâp pen hecsagonol y prism (6 ochr).
Mae'n hecsagon gyda **phob un** o'i ochrau'n 30mm o hyd.

*Mae'r lluniad wedi cael ei ddechrau i chi.*




[6]



**Trosodd.**

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(b)* Dangosir lluniad o flwch *gwahanol* isod.





(i) **Nodwch** enw cywir y math hwn o luniad.

Lluniad .................................................. Ongl .................................................. [2]

(ii) **Gan ddefnyddio'r** grid isod, **gwnewch** luniad ISOMEDRIG manwl gywir o'r blwch a ddangosir. Defnyddiwch LINELLAU TRWCHUS A THENAU yn eich ateb.

**Rhoddir marciau am:**
- amlinelliad maint llawn manwl gywir o'r siâp; [8]
- defnyddio llinellau Trwchus a Thenau ar eich lluniad isomedrig i wneud i'r lluniad edrych yn debycach i wrthrych solet. [5]



**3.** Mae taflen hysbysebu ar gyfer fflatiau gwyliau wedi cael ei dylunio.
Mae'r daflen yn 200mm sgwâr ar ôl ei phlygu.
Dangosir ffotograffau o'r daflen isod.




*(a)* Mae'r daflen yn cael ei phlygu fel y dangosir.





**Ticiwch (✓)** wrth ochr enw'r math hwn o blyg. [1]

| Math o Blyg | |
|---|---|
| PLYG-DDALEN *(Gatefold)* | |
| PLYG BARIL *(Barrel Fold)* | |
| PLYG FFRENGIG *(French Fold)* | |

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(b)* Er mwyn i'r daflen blygu'n gywir, rhaid i bob tudalen fod o led gwahanol. **Cwblhewch** y braslun isod trwy ychwanegu'r dimensiynau coll. Mae'r dimensiwn yn y canol wedi cael ei roi i chi. [4]




*(c)* Rhaid argraffu'r daflen ar ddefnydd sy'n gallu sefyll ar ei ben ei hun wrth iddi gael ei harddangos *(fel cerdyn pen-blwydd)*.

(i) O'r rhestr isod, **ticiwch** (✓) y defnydd mwyaf priodol ar gyfer gwneud y daflen ac yna **rhowch un** rheswm dros eich dewis.

| **Defnydd** | **Ticiwch (✓)** |
|---|---|
| Papur manylion 40 gms *(gsm)* | |
| Pleth-bapur *(wove paper)* 80 gms *(gsm)* | |
| Papur haen *(coated paper)* 160 gms *(gsm)* | |
| Cerdyn 1200 micron | |

[1]

Rheswm ..............................................................................................................................

.............................................................................................................................................. [2]

(ii) **Nodwch** ystyr **gms** *(gsm)* yn y tabl uchod.

g ........................................ y m ........................................ s........................................ [3]

(iii) **Nodwch** beth mae'r term **1200 micron** yn ei ddweud wrthych am y cerdyn. [1]

..............................................................................................................................................

(iv) **Trawsnewidiwch 1200 micron** yn filimetrau (mm). [1]

..............................................................................................................................................

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(ch)* Mae rhai o'r ffotograffau yn y daflen wedi cael eu newid fel eu bod yn toddi *(fade)* i'w gilydd. Defnyddir meddalwedd cyfrifiadurol i wneud hyn.



O'r rhestr isod, **tanlinellwch** y math o becyn meddalwedd y byddech yn ei ddefnyddio. [1]

**Pecyn golygu didfap / Pecyn lluniadu fector / Pecyn golygu fideo**

*(d)* Mae gwahaniadau *(separations)* lliw yn cael eu gwneud cyn argraffu'r daflen.
**Esboniwch** beth yw gwahaniad lliw. [2]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

*(dd)* Penderfynir rhoi'r ffotograffau o'r llety *(accommodation)* ar wefan.

O'r rhestr isod, **tanlinellwch** y fformat ffeil mwyaf priodol ar gyfer cadw'r delweddau. [1]


**.JPG / .GIF / .TIF**

Examiner only
*Arholwr yn unig*


**4.** Defnyddir graffiau a siartiau yn aml i wneud gwybodaeth yn haws ei deall.

*(a)* Mae'r lluniau isod yn dangos tri dull cyffredin o gyflwyno data.
O'r rhestr isod, **dewiswch** yr enw cywir ar gyfer **pob un**. [3]

SIART BAR SIART CYLCH GRAFF LLINELL SIART GANTT







.................................................... .................................................... ....................................................


*(b)* Mae dŵr potel yn ddiod boblogaidd. Pris potel o ddŵr yw 48 ceiniog.
Mae'r tabl yn dangos dadansoddiad o'r gost.

| | |
|---|---|
| Defnyddiau | 10% |
| Costau gweithgynhyrchu | 45% |
| Hysbysebu | 7.5% |
| Elw | 20% |
| TAW *(VAT)* | 17.5% |

**Lluniadwch** graff neu siart yn y lle gwag isod i ddarlunio'r wybodaeth yn y tabl. [8]

*(c)* Defnyddir tywyllu neu rendro yn aml i wneud i luniad edrych yn fwy solet a thri-dimensiwn.

(i) **Defnyddiwch** dywyllu i wneud i'r siâp isod edrych fel silindr solet. [5]



(ii) **Nodwch ddau** reswm arall dros rendro lluniad.

Rheswm 1: .................................................................................................................................... [1]

Rheswm 2: .................................................................................................................................... [1]

**5.** Mae gwneuthurwr watsiau arddwrn *(wrist-watches)* yn cyflwyno wats newydd wedi'i anelu at bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon. Bydd gan y wats swyddogaethau sy'n ddefnyddiol mewn chwaraeon (bydd ganddo stopwats a monitor cyfradd curiad y galon a bydd yn wrth-ddŵr *(waterproof)*).

*(a)* Mae angen enw a logo ar gyfer y wats newydd.
Rhaid i'r enw apelio at bobl ifanc sy'n mwynhau chwaraeon a rhaid iddo fod yn fyr a hawdd ei gofio.
Rhaid i'r logo ffitio mewn cylch â diamedr o 80mm.

(i) Ar y llinell isod, **ysgrifennwch** yr enw y byddwch yn ei ddefnyddio.


Enw a ddewiswyd gennych ar gyfer y wats: .............................................................................. [1]

(ii) Yn y cylch a roddir isod, **dyluniwch** logo gan ddefnyddio enw'r wats.


**Rhoddir marciau am:**

- dylunio logo sy'n defnyddio'r enw a ddewiswyd neu dalfyriad *(abbreviation)*; [3]
- defnyddio'r holl le sydd ar gael; [1]
- ansawdd y lluniadu; [2]
- ansawdd y defnydd o liw. [2]

*(b)* Mae angen arddangosiad pwynt talu *(point of sale display)* maint A4 ar gyfer cownter siop.
Mae'r ddelwedd ar y dde yn dangos y graffigwaith i'w ddefnyddio ar yr arddangosiad pwynt talu.




**Dyluniwch** stand cynnal a fydd yn dal y graffigwaith hwn yn ei le ar y cownter.




**Rhoddir marciau am:**

(i) dylunio stand sy'n:
- dal y graffigwaith yn gadarn yn ei le; [1]
- dal y graffigwaith ar ongl o tua 80 gradd i'r llorwedd; [2]
- sefydlog ac yn anodd ei fwrw drosodd; [1]
- plygu'n fflat i'w bostio i'r siop; [2]
- cloi yn ei le i'w atal rhag plygu wrth gael ei ddefnyddio. [2]

(ii) nodi defnydd addas a ddefnyddir i wneud y stand. [2]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(c)* Gwnewch **luniad orthograffig** i ddangos manylion eich dyluniad ar gyfer y stand. Ni ddylech ddefnyddio ond y golygon hynny sy'n angenrheidiol i roi'r wybodaeth. Rhaid i chi ychwanegu'r **tri** (3) dimensiwn pwysicaf at eich lluniad. [6]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**Parhad yn unig.**